Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad)

# Dweud eich dweud a'n helpu i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldebau Sengl

Dathlu Gwahaniaeth…

## Neges gan y Llywydd a'r Prif Weithredwr

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i hybu cydraddoldebau ac i ddarparu gwasanaethau hygyrch. Fel sefydliad, rydym yn cyflogi staff, yn darparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad ac yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r cyhoedd.

Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau cydraddoldeb a hygyrchedd i'r holl staff, Aelodau'r Cynulliad ac ymwelwyr, beth bynnag fo'u hoed, eu hanabledd, eu rhyw/hunaniaeth o ran rhywedd, eu hil/ethnigrwydd, eu crefydd a'u cred a'u cyfeiriadedd rhywiol. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, mae'n sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw un o dan anfantais yn hyn o beth.

Fe hoffem glywed eich barn am unrhyw gamau y gallwn eu cymryd i wella cydraddoldebau a mynediad at wybodaeth, cyfleoedd cyflogaeth, trafodion y Cynulliad (pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn y Cynulliad) a mynediad i'n hadeiladau.

Bydd unrhyw sylwadau gennych yn werthfawr, a byddant yn ein helpu i greu Cynllun Cydraddoldebau Sengl cryf ac i nodi meysydd allweddol lle mae lle i wella o ran cydraddoldebau a mynediad yng ngwaith Comisiwn y Cynulliad.  Gobeithiwn y byddwch chi'n rhan o'r gwaith hanfodol hwn ac felly'n ein helpu i ddarparu cydraddoldeb a thegwch i bawb.





**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas**
Llywydd

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr

**1. Pwy ydym ni a beth yw ein gwaith**

Ni yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad), sydd wedi'i leoli ym Mae Caerdydd. Rydym yn darparu staff, eiddo ac adnoddau i hwyluso gwaith y Cynulliad (60 o Aelodau). Nid ydym yn creu polisïau cyhoeddus, megis iechyd, trafnidiaeth ac addysg, gan mai gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hyn.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu o dan arweiniad a chyfarwyddyd y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol. Mae cefnogi'r Cynulliad yn cynnwys nifer o weithgareddau. Yn eu plith mae:

- Darparu adeiladau, cyfleusterau, offer a gwybodaeth er mwyn i Aelodau'r Cynulliad allu gwneud eu gwaith;
- Cefnogi pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn (Cyfarfod Llawn o 60 Aelod y Cynulliad) trwy ddarparu cyngor gweithdrefnol, cyngor cyfreithiol a chyngor arall;
- Darparu gwasanaethau cyfieithu, cyfieithu ar y pryd a gwasanaeth cofnodi sy'n sicrhau y gall y Cynulliad weithredu yn Gymraeg a Saesneg; a
- Darparu gwybodaeth ac addysg i'r cyhoedd am waith y Cynulliad a threfnu ymweliadau â'r Cynulliad a mannau eraill.

**2. Sut y gallwch chi helpu**

Mae Comisiwn y Cynulliad wrthi'n datblygu Cynllun Cydraddoldebau Sengl a hoffai gael eich help i wella cydraddoldebau i'n staff, i'r Aelodau Cynulliad rydym ni'n eu cefnogi ac i'r bobl sy'n ymweld ac yn rhyngweithio â'r Cynulliad. Gyda chydraddoldebau, rydym yn golygu sicrhau bod mynediad at yr hyn a wnawn yn deg ac yn gyfartal i bawb.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau amrywiol megis darllen rhwydd, print bras, Braille a sain. Os bydd angen iaith arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg arnoch, neu os bydd gennych unrhyw anghenion eraill, cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldebau os gwelwch yn dda.

Rydym wedi cynnwys cyfres o gwestiynau isod sy'n gofyn eich barn am sut y gallwn wella ein gwaith o ran cydraddoldebau. Gellir

gweld ein blaenoriaethau ar gyfer hybu cydraddoldebau yn ein gweithlu a gwella mynediad i'r cyhoedd yn adran saith yn y ddogfen hon. Gallwch ddefnyddio'r rhain os dymunwch neu edrych ar y cwestiynau canlynol.

**Rhowch eich barn os gwelwch yn dda am y materion canlynol:**

## Mynediad at wybodaeth

- Ydych chi'n gwybod sut i ganfod gwybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru?
- Ydych chi wedi defnyddio'n gwefan (www.cynulliadcymru.org)? Beth oeddech chi'n ei feddwl ohoni? Oedd hi'n hawdd ei defnyddio? Sut y gellid gwella'r wefan?
- A ddylem ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg?
- Ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â'ch Aelod Cynulliad?

## Mynediad at gyfleoedd cyflogaeth

- Ydych chi'n gweld ein swyddi'n cael eu hysbysebu'n rheolaidd?
- Ble hoffech chi eu gweld yn cael eu hysbysebu?
- Beth fyddai'n eich annog i ymgeisio am swydd gyda ni?
- Beth fyddai'n eich atal rhag ymgeisio am swydd?

## Mynediad at drafodion

- A wyddech ei bod yn bosibl gwylio cyfarfodydd y Cynulliad? Ydych chi wedi gwneud hyn? Beth oedd eich barn?
- Oeddech chi'n gwybod bod modd gwylio cyfarfodydd y Cynulliad ar y rhyngrwyd? A wyddoch chi ble mae gwneud hyn?
- A wyddoch chi am system ddeisebu'r Cynulliad, lle gall aelodau'r cyhoedd ofyn i'r Cynulliad ystyried pwnc penodol?

## Mynediad i’n hadeiladau

- Ydych chi wedi ymweld â’r Senedd ym Mae Caerdydd erioed? Gallwch gael taith o amgylch yr adeilad, gwylio’r digwyddiadau neu ddod i mewn am dro neu fynd i’r caffi.
- Os ydych wedi ymweld â’r Senedd, beth oedd eich barn? Beth ellid ei wella?

## Materion eraill

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddwyn i’n sylw?

## Cyfrannu yn y dyfodol

Os hoffech chi gyfrannu i’n helpu i ddynodi a chyflawni’n hamcanion o ran cydraddoldebau nawr ac yn y dyfodol - rhowch wybod i ni sut y gallwn eich cynnwys.

**SUT I ROI EICH BARN**
Gallwch ddefnyddio’n ffurflen i ymateb i’r ymgynghoriad yn ogystal ag ymateb mewn ffyrdd eraill:

| | |
|---|---|
| **E-bost:** | equalities.team@wales.gsi.gov.uk |
| **Llythyr:** | Y Tîm Cydraddoldebau<br>Yr Uned Gorfforaethol<br>Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Caerdydd<br>CF99 1NA |
| **Ffacs:** | 029 2089 8117 |
| **Ffôn testun:** | 029 2089 8601 |
| **Ffôn:** | 029 2089 8204 |

**Erbyn pryd y mae angen yr ymatebion?**
Byddwn yn gorffen casglu ymatebion ar 29 Awst 2008.

**Ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad**
Dywedwch wrthym os ydych yn ymateb fel unigolyn neu a yw'ch safbwyntiau'n cynrychioli sefydliad neu gorff.

**Beth fydd yn digwydd i'ch sylwadau neu'ch awgrymiadau?**
Byddwn yn paratoi crynodeb cyffredinol o'r safbwyntiau a anfonir atom. Byddwn yn ystyried eich awgrymiadau a'ch sylwadau pan fyddwn yn llunio'n Cynllun terfynol ac yn dynodi unrhyw gamau a ddylai gael blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2008 a bydd ar gael ar ein gwefan.

**Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data**

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, fe all fod angen datgelu gwybodaeth y byddwch chi wedi ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn flaenorol wedi'i thynnu'n ôl gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch chi'n darparu unrhyw wybodaeth nad yw'n addas i gael ei datgelu'n gyhoeddus yn eich tyb chi (gan gynnwys data personol), chi sydd i ddatgan pa rannau na ddylai gael eu cyhoeddi, a dylech roi dadl resymol i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn pan fydd yn cyhoeddi gwybodaeth neu'n ymateb i geisiadau am wybodaeth.

## GWYBODAETH GEFNDIR AM Y CYNLLUN

### 3. Beth yw cynllun cydraddoldebau?

Bydd ein cynllun cydraddoldebau yn nodi'n dull o weithredu ar gyfer hybu cydraddoldebau a hawliau dynol fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n gwasanaethu Aelodau'r Cynulliad ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Bydd y Cynllun yn cynnwys y meysydd cyfrifoldeb canlynol o ran cydraddoldeb: oed, anabledd, rhyw/ hunaniaeth o ran rhywedd, hil/ethnigrwydd, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol. Bydd cynllun gweithredu'n cyd-fynd â'r Cynllun a bydd hwn yn rhestru'r camau sydd wedi'u nodi ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a gwella mynediad at ein gwasanaethau.

Mae gan y Cynulliad ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun ar waith, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cynllun yn ateb gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n cynnwys trefniadau monitro penodol sydd ar waith.

**4. Y rhesymau dros ddatblygu Cynllun Cydraddoldebau Sengl**

- Datblygu Cynllun sy'n addas i'w bwrpas ar gyfer ein sefydliad. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu ei Chynllun a'i Chynllun Gweithredu ei hun;
- Ateb gofynion dyletswyddau cydraddoldeb statudol y sector cyhoeddus (anabledd, hil a rhyw) a defnyddio'r un egwyddorion mewn meysydd cyfrifoldeb eraill o ran cydraddoldeb: oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd/cred yn ogystal ag egwyddorion hawliau dynol;
- Creu Cynllun sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd;
- Achub y blaen ar ofynion Deddf Cydraddoldeb Unigol y DU;
- Edrych ar bobl fel unigolion gydag anghenion gwahanol a allai wynebu anfanteision niferus; a
- Sicrhau bod egwyddorion cydraddoldebau a hawliau dynol yn rhan ganolog o waith a diwylliant ein sefydliad.

**5. Pryd fydd y Cynllun ar gael?**

Bydd ein Cynllun Cydraddoldebau a'n Cynllun Gweithredu ar gael ym mis Hydref 2008 a bydd yn para am dair blynedd, ac yna bydd yn cael ei adolygu. Bydd Comisiwn y Cynulliad hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldebau a fydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am ein cynnydd wrth gymryd y camau gweithredu a ddynodwyd er mwyn hyrwyddo cydraddoldebau.

Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad hefyd yn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldebau ac yn edrych ar y cynnydd a wneir i gyflawni'n gofynion bob blwyddyn.

**6. Sut y byddwn yn datblygu ein Cynllun a'n Cynllun Gweithredu?**

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yn parhau i gasglu tystiolaeth dros yr haf i'n helpu i ddynodi'r hyn sydd angen ei wneud:

**Cynnwys ein staff**

- Grwpiau ffocws i staff
- Negeseuon e-bost i'r holl staff
- Tystiolaeth o'n harolwg cydraddoldebau i'r holl staff
- Cyfarfodydd y Grŵp Llywio ar Gydraddoldebau

- Awgrymiadau a sylwadau gan staff i’r Tîm Cydraddoldebau
- Adborth gan rai sydd ar secondiad neu leoliadau gwaith, yn arbennig y rhai o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Adborth ffurfiol gan rwydwaith y Cynulliad ar gyfer pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a’r rhwydwaith staff anabl

**Ceisio barn Aelodau’r Cynulliad a’u staff**

- Grwpiau ffocws ac arolygon e-bost
- Adborth cyffredinol ar y gwasanaethau a ddarparwn i Aelodau’r Cynulliad
- Adborth gan Gomisiwn y Cynulliad ar ddatblygu ein hamcanion o ran cydraddoldebau
- Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn rhoi adborth blynyddol ar gynnydd Comisiwn y Cynulliad wrth gyflawni ei amcanion o ran cydraddoldebau.

**Ceisio barn ac ymgynghori â phobl Cymru**

- Adborth ac awgrymiadau gan ymwelwyr â’r Cynulliad ac Adeilad y Senedd
- Gweithio gyda phersonau cyswllt o fewn cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gasglu tystiolaeth a barn am sut y gallwn wella ein gwasanaethau
- Rhoi cyhoeddusrwydd i’r ymgynghoriad mewn sefydliadau yn y gymuned, ar bapur ac ar-lein.

**Tystiolaeth o asesu effaith**

- Caiff polisïau eu hasesu o ran eu heffaith, a defnyddir tystiolaeth o’r broses hon i ddatblygu, diddymu neu newid polisi.

**Adolygu’n cynlluniau blaenorol**

- Bydd y camau gweithredu a ddaeth yn sgil ein cynlluniau ar hil, anabledd a’r cynllun cydraddoldeb rhywiol ynghyd â’n cynlluniau gweithredu yn cael eu hadolygu a’u cynnwys yn ein cynllun gweithredu newydd

## 7. CANLYNIADAU POSIBL I WAHANOL WASANAETHAU'R CYNULLIAD O RAN CYDRADDOLDEBAU

## GWEITHREDIADAU

### Adnoddau Dynol

Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys darparu amrywiaeth o wasanaethau Adnoddau Dynol, megis hyfforddiant a datblygu, recriwtio mewnol ac allanol, rheoli perfformiad, iechyd a diogelwch ac iechyd galwedigaethol. Mae'r swyddogaethau, y gwasanaethau a'r polisïau sy'n berthnasol i gydraddoldebau'n cynnwys:

- Cynefino
- Cronfa ddata TG y gwasanaeth Adnoddau Dynol
- Recriwtio
- Hyfforddiant a datblygu
- Diweddaru ac adolygu polisïau cyflogaeth
- Trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau

### Blaenoriaethau i'r gwasanaeth Adnoddau Dynol o ran cydraddoldebau

- Sicrhau bod grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl dduon, pobl Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig yn ymwybodol o'n swyddi gwag a denu ceisiadau gan y grwpiau hyn sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yn gyffredinol. Y nod fydd gwneud hyn yn raddol ym mhob maes cydraddoldeb arall

- Sicrhau bod gan y staff, Aelodau'r Cynulliad a staff Aelodau'r Cynulliad well ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldebau/hawliau dynol a'r meysydd cydraddoldeb canlynol: oedran, anabledd, rhyw/hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol. Sicrhau bod y staff, Aelodau'r Cynulliad a staff Aelodau'r Cynulliad yn deall goblygiadau'r Cynllun Cydraddoldebau a dyletswyddau'r sector cyhoeddus o ran cydraddoldebau

- Sicrhau bod y sefydliad yn ymateb o ddifrif i fwlio ac aflonyddu, a bod y staff yn cael eu haddysgu am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau

- Monitro graddau swyddi a mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau o ran rhyw

- Polisïau cyflogaeth sy'n rhoi ystyriaeth i ofynion deddfwriaethol newydd ynghylch cydraddoldebau a hawliau dynol

- Sicrhau bod gwell gwybodaeth am gydraddoldebau staff ar gael

- Sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i gofnodi a'i fod ar gael yn rhwydd mewn polisïau monitro cyflogaeth

- Sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb yn rhan o'n strategaeth newydd ar gyfer cyflogau

- Sicrhau bod gweithwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau a allai effeithio arnynt (rhwydweithiau staff)

- Sicrhau bod ein trefniadau newydd ar gyfer cynefino yn rhoi pwyslais addas ar ein hymrwymiadau a'n dyletswyddau o ran cydraddoldebau a bod y trefniadau hyn yn cael eu rhannu â staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, fel sy'n briodol

- Cyflwyno cynllun peilot yn hyrwyddo penodi pobl dduon, pobl Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig i oruchwylion gwaith ac ehangu hynny i'r meysydd cydraddoldeb eraill ar ôl adolygu'r cynllun peilot

- Sicrhau bod yr hyfforddiant sy'n codi ymwybyddiaeth o'r system PMR newydd yn hyrwyddo'r egwyddor o brif ffrydio cydraddoldeb fel rhan o amcanion unigolion, fel sy'n briodol

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Yr adran hon sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaethau TGCh a'r gwasanaethau darlledu a ddarperir i Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r adran yn darparu gwasanaethau TGCh i'r Aelodau, eu staff cymorth a'r swyddogion, ac yn sicrhau bod cyfleusterau darlledu ar gael yng Nghomisiwn y Cynulliad.

## Blaenoriaethau i'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu o ran cydraddoldebau

- Gwefan sy'n agored ac yn rhwydd i bawb ei defnyddio, gan gynnwys pobl anabl
- Sicrhau bod offer TG ar gael yn brydlon i staff sydd â gofynion penodol
- Datblygu nodweddion newydd ar y wefan i feithrin cysylltiad llawn a chyfartal â'r cyhoedd

## Cyfathrebu Allanol

Mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrifol am wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwerau a gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys darparu strategaeth gyfathrebu a thrafod â'r wasg a'r cyfryngau darlledu ar ran y Llywydd, Comisiwn y Cynulliad, Cadeiryddion Pwyllgorau a'r Prif Weithredwr a'r Clerc.

## Blaenoriaethau i'r gwasanaeth Cyfathrebu Allanol o ran cydraddoldebau

- Sicrhau bod gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith ar gael i bawb
- Sicrhau bod cyhoeddiadau'r Cynulliad a'r lluniau sydd ynddynt yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas yng Nghymru
- Sicrhau bod pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu ymweld â'r Senedd
- Sicrhau cynnydd yn nifer y bobl dduon, pobl Asiaidd, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl ifanc anabl sy'n cyfrannu i grwpiau yng nghanolfan addysg y Cynulliad
- Gwell mynediad i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn nigwyddiadau'r Cynulliad ym mhob rhan o Gymru

- Sicrhau bod pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu gweld a/neu gyfrannu at drafodion

- Sicrhau bod staff rheng flaen wedi'u hyfforddi ac yn teimlo'n hyderus wrth groesawu pobl sydd ag anghenion gwahanol i'r Cynulliad

- Teithiau tywys hygyrch o amgylch y Senedd i ymwelwyr sydd â nam ar y synhwyrau

- Sicrhau bod datganiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau'n cael eu hanfon i sefydliadau neu at grwpiau a allai gynrychioli buddiannau mewn perthynas â chydraddoldebau

## Y Gwasanaethau Ariannol

Mae'r tîm yn pennu'r safonau ar gyfer rheolaeth ac ymwybyddiaeth ariannol yn y sefydliad; yn prosesu taliadau (gan gynnwys taliadau'r gyflogres) i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad; yn cynorthwyo'r Comisiwn i reoli ei adnoddau ariannol a llunio cyfrifon; yn ceisio sicrhau bod holl anfonebau cyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon; ac yn rhoi cyngor ar gaffael a datblygu cynaliadwy. Caiff y gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad eu cydlynu gan y timau Cymorth Busnes i Aelodau, sy'n cynnwys timau ar gyfer y gyflogres, lwfansau, cyllidebau a thaliadau'r Aelodau, darparu gwasanaethau Adnoddau Dynol a gweinyddu pensiynau'r Aelodau a'u staff.

## Blaenoriaethau i'r Gwasanaethau Ariannol o ran cydraddoldebau

- Mae ein cyflenwyr yn gweithio i'r safon uchaf ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldebau; mae'r gadwyn gyflenwi'n cael gwybod bod cydraddoldebau yn bwysig i ni fel sefydliad a bod disgwyl i'n cyflenwyr weithredu'n unol â hynny.

## Rheoli Ystadau a Chyfleusterau

Mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrifol am reoli ystad Comisiwn y Cynulliad yn ogystal â rheoli nifer o gontractau gyda darparwyr gwasanaethau allanol. Mae'r tîm yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ar gyfer adeilad y Cynulliad

ac adeilad y Lanfa er mwyn galluogi a chynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'r swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau mewn argyfwng a materion sy'n ymwneud â llety ac iechyd a diogelwch.

**Blaenoriaethau i'r gwasanaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau o ran cydraddoldebau**

- Sicrhau bod yr adeiladau'n ddiogel, yn hygyrch ac yn lân ar gyfer staff, staff ar gontractau, Aelodau'r Cynulliad, eu staff ac ymwelwyr

- Sicrhau bod mannau gwaith y staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff ar gontractau yn ergonomig ac yn hygyrch

- Sicrhau bod Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldebau a materion sy'n ymwneud â mynediad

**Diogelwch**

Mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrifol am bob agwedd ar ddiogelwch yr adeiladau a diogelwch cyffredinol yn adeiladau Comisiwn y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

**Blaenoriaeth i'r gwasanaeth Diogelwch o ran cydraddoldebau**

- Sicrhau bod staff y tîm diogelwch yn broffesiynol, wedi'u hyfforddi ac yn teimlo'n hyderus wrth ymdrin ag amrywiaeth o ymwelwyr sydd ag anghenion gwahanol

## BUSNES Y CYNULLIAD

Mae Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad yn rhoi cymorth seneddol arbenigol i'r Aelodau i sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn benodol, mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol:

**Gwasanaeth y Siambr:** rheoli Cyfarfodydd Llawn a rhoi cyngor gweithdrefnol i'r Llywydd ac Aelodau eraill.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau:** rhoi cymorth ysgrifenyddol i bwyllgorau'r Cynulliad a rhoi cyngor gweithdrefnol i gadeiryddion y pwyllgorau a'r Aelodau.

**Y Swyddfa Ddeddfwriaeth:** darparu gwasanaethau clercio i'r pwyllgorau a sefydlwyd i graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, Mesurau Cynulliad, is-ddeddfwriaeth a'r cyfnodau dilynol yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r swyddfa hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynigion deddfwriaethol Aelodau unigol.

**Y Swyddfa Gyflwyno:** darparu cyngor a gwasanaeth cymrodeddu ar gyfer cwestiynau a chynigion; cyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau Aelodau; rhoi canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau; a rhoi cyngor i'r Comisiynydd Safonau.

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau:** darparu gwybodaeth a gwasanaeth ymchwil cyfrinachol a diduedd i Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau.

**Cofnod y Trafodion:** cynhyrchu a chyhoeddi trawsgrifiadau dwyieithog o'r Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau.

**Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd:** sicrhau bod holl fusnes ffurfiol y Cynulliad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog.

**Blaenoriaethau i Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad o ran cydraddoldebau**

- Sicrhau bod yr Aelodau'n cael cyfle i gynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â chydraddoldebau yn eu gwaith yn y Cynulliad ac yn eu hetholaethau **(Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)**

- Sicrhau bod canlyniadau ymchwil a gyhoeddir ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru mor hygyrch â phosibl **(Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)**

- Ymgynghori'n llawn gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol pan fydd pwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaethol yn galw am dystiolaeth **(Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Swyddfa Ddeddfwriaeth)**

- Sicrhau bod cofnodion llawn o Gyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau ar gael i staff, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o'r cyhoedd ar wefan y Cynulliad, a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â safonau'r AA **(Cyfieithu a Chofnodi)**

- Sicrhau bod ystyriaethau sy'n ymwneud â chydraddoldebau yn rhan o brosesau recriwtio'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol (gan gynnwys gweithio hyblyg, rhannu swyddi a threfniadau gweithio o gartref) **(Cyfieithu a Chofnodi)**

- Sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i bob aelod o staff, Aelodau'r Cynulliad, tystion y pwyllgorau, ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd **(Cyfieithu a Chofnodi)**

## Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

**Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu'r gwasanaethau canlynol**:

- Cyngor ar Orchmynion a Mesurau;
- Cyngor ar gymhwysedd deddfwriaethol;
- Craffu ar is-ddeddfwriaeth;
- Cyngor corfforaethol.

### Blaenoriaeth i'r Gwasanaethau Cyfreithiol o ran cydraddoldebau

- Sicrhau bod gan Gomisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad ymwybyddiaeth well o'u cyfrifoldebau o ran y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â chydraddoldebau

## YR UNED GORFFORAETHOL

Mae'r Uned Gorfforaethol yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaethau ysgrifenyddol i Gomisiwn y Cynulliad, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol;
- Cymorth i'r Llywydd a'r Prif Weithredwr;
- Rheoli Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth;
- Cyfathrebu Mewnol;
- Cydlynu polisïau strategol corfforaethol, gan gynnwys polisïau ar gydraddoldebau.

**Blaenoriaethau i'r Uned Gorfforaethol o ran cydraddoldebau**

- Cynllun Cydraddoldebau Sengl effeithiol sy'n cael ei fonitro, a chofnodi'r cynnydd a wneir ar yr amcanion sy'n ymwneud â chydraddoldebau yn rheolaidd

- Sicrhau bod yr amcanion sy'n ymwneud â chydraddoldebau yn cael ystyriaeth ym mhrosesau gwaith/prosesau cynllunio gwasanaethau'r gwahanol feysydd cyfrifoldeb

- Cynllun a Chynllun Gweithredu sy'n cael ei adolygu'n allanol bob tair blynedd ac yn rhan o'r broses o gynllunio gwasanaethau

- Sicrhau y caiff polisïau newydd a pholisïau a gynigir eu hasesu o ran yr effaith ar gydraddoldebau, a gofalu bod staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r broses hon

- Sicrhau bod staff ac Aelodau'r Cynulliad yn gallu cael cyngor cyflym a chywir gan y Tîm Cydraddoldebau ynghylch cydraddoldebau, mynediad a materion sy'n ymwneud â hawliau dynol

- Tîm Cydraddoldebau amlwg sy'n hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldebau/materion sy'n ymwneud â hawliau dynol ymhlith staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff

- Sicrhau bod y perthnasau/rhwydweithiau gwaith mewnol ac allanol yn effeithiol er mwyn bod yn sail i'n gwaith ar gydraddoldebau